OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Croes-y-mwyalch, Cwmbrân i Gylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, Torfaen) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Awst 2025* |
| *Yn dod i rym* | *3 Medi 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân i Gylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, Torfaen) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Medi 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4042 Trunk Road (Croes-y-Mwyalch Roundabout, Cwmbran to Mamhilad Park Estate Roundabout, Mamhilad, Torfaen) (Derestriction) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 August 2025* |
| *Coming into force* | *3 September 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Croes-y-Mwyalch Roundabout, Cwmbran to Mamhilad Park Estate Roundabout, Mamhilad, Torfaen) (Derestriction) Order 2025 and this Order comes into force on 3 September 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order "the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I.1999/672, Article 2 and Schedule 1 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dileu Cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffyrdd cyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Ffordd Osgoi Llantarnam, Cwmbrân, Gwent) (Dileu Cyfyngiadau) 1996(**1**) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Awst 2025

N Hunter

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 238 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Croes-y-Mwyalch, Cwmbrân, gan gynnwys Cylchfan Croes-y-Mwyalch.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 155 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Crown, Cwmbrân hyd at bwynt 36 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl hyd at bwynt 155 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Crown, Cwmbrân, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

(**1**) O.S. 1996/1048.

**Derestriction**

**3.** Those lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order shall cease to be restricted roads for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Revoking**

**4.** The A4042 Trunk Road (Llantarnam Bypass, Cwmbran, Gwent) De-restriction Order 1996(**1**) is hereby revoked.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 27 August 2025

N Hunter

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## SCHEDULE

That length of the trunk road that extends from a point 238 metres southeast of its junction with Croes-y-Mwyalch Roundabout, Cwmbran to a point 150 metres north of its junction with Croes-y-Mwyalch Roundabout, Cwmbran, including Croes-y-Mwyalch Roundabout.

That length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 155 metres south of its junction with Crown Roundabout, Cwmbran to a point 36 metres south of its junction with Pontypool Roundabout, Pontypool, including all roundabouts between these two points.

That length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 40 metres south of its junction with Pontypool Roundabout, Pontypool to a point 155 metres south of its junction with Crown Roundabout, Cwmbran, including all roundabouts between these two points.

(**1**) S.I. 1996/1048.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 213 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont-y-pŵl, Pont-y-pŵl hyd at bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamheilad, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 18 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Ystad Parc Mamheilad, Mamhilad hyd at bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Court Farm, Pont-y-pŵl, gan gynnwys pob cylchfan rhwng y ddau bwynt hynny.

That length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 213 metres northeast of its junction with Pontypool Roundabout, Pontypool to a point 18 metres northeast of its junction with Mamhilad Park Estate Roundabout, Mamhilad, including all roundabouts between these two points.

That length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 18 metres northeast of its junction with Mamhilad Park Estate Roundabout, Mamhilad to a point 45 metres south of its junction with Court Farm Roundabout, Pontypool, including all roundabouts between these two points.